

Rhif: WG34186



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Setliad Llywodraeth Leol

Dros Dro 2018-2019

Chwefror 2018

Crynodeb o'r Prif Sylwadau

DS: Mae'r canlynol yn adlewyrchu safbwyntiau'r ymatebwyr a'u dehongliadau fel y'u rhoddwyd yn eu hymatebion.

Cyngor Sir Mynwy – Setliad Dros Dro o -1.0%

Setliad - Teimla Mynwy fod y setliad yn siomedig i lywodraeth leol ar draws Gymru yn dilyn y gostyngiadau y mae'r Cynghorau wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf, a bod yr arian ychwanegol a gafwyd oddi wrth Lywodraeth y DU wedi cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd nad ydynt yn bodloni anghenion pobl yng Nghymru.

Dywedant eu bod unwaith eto wedi cael un o'r setliadau gwaethaf yng Nghymru sydd 1% yn llai na 2017-18 gyda'r setliad yn barhad o wyth mlynedd ddilynol o ostyngiadau yng nghyllid llywodraeth leol mewn termau real. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 3.7% gan na roddir ystyriaeth i'r gyfradd chwyddiant gyfredol o 2.7%. Y toriad cyfartalog i Gynghorau yng Nghymru yw 0.5%, tra bo Mynwy, a phump o siroedd eraill, yn wynebu'r gostyngiad mwyaf yng Nghymru, sef 1%. Nid yw'r setliad wedi gwneud dim i leddfu eu sefyllfa fel y Cyngor sy'n cael ei ariannu waethaf yng Nghymru y pen o'r boblogaeth gyda'r cyllid y pen cyfartalog yng Nghymru yn £1,339 o'i gymharu â £1,001 ar gyfer Mynwy.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o hyd o'r pwysau ar gyllidebau aelwydydd ac mae'n gwneud ei orau i gyflwyno cyllideb gytbwys a fydd yn sicr o roi pwysau ar gynnydd yn y Dreth Gyngor.

Mae Mynwy yn croesawu ymrwymiad i osod terfyn isaf ar y cyllid. Gan edrych ymlaen i'r dyfodol, yr un yw'r rhagolygon am galedi parhaus, a hynny yng nghyd-destun pwysau gwirioneddol ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau aruthrol.

Maent yn croesawu'r setliad refeniw dangosol ar gyfer 2019-20 fodd bynnag byddai darparu setliadau dangosol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn helpu Cynghorau i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Fel awdurdod gwledig maent yn wynebu sialensiau penodol yn cynnig gwasanaethau fel gofal cymdeithasol, casglu gwastraff a thrafnidiaeth a phriffyrdd ar draws ardal eang. Maent yn rhoi blaenoriaeth i gynnal gwasanaethau sydd ar gael yn lleol i frwydro yn erbyn unigedd gwledig a galwant ar Lywodraeth Cymru i seilio'r cyllid ar system decach a chydabod y problemau y mae Awdurdodau gwledig yn eu hwynebu wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Cyllid – galwant am fwy o dryloywder ynglŷn â rhai o ffigurau'r setliad dros dro gan ei fod yn awgrymu cynnydd o £62m mewn cyllid ar gyfer addysg a £24m ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, fodd bynnag, ni cheir dim adnoddau ychwanegol i'w gwarchod nac eglurhad ynglŷn â sut cafodd y ffigurau eu cyfrifo. Dywedant fod setliad llywodraeth leol Cymru gyfan yn syml wedi gostwng 0.5%.

Grantiau penodol - maent yn gefnogol i drosglwyddo grantiau penodol i'r Grant Cynnal Refeniw ac yn annog hynny, ond maent hefyd yn siomedig na wnaed mwy o gynnydd. Byddent yn hoffi gweld mwy o grantiau'n cael eu trosglwyddo cyn belled â bod y dosbarthiad yn aros ar yr un sail â'r grant gwreiddiol i rwystro newidiadau mawr yn hwyr iawn yn y broses.

Cyfalaf - dywed Mynwy na roddwyd sylw i ostyngiadau blaenorol yn y cyllid cyfalaf a'i fod yn dal i beri pryder aruthrol yn enwedig pan fo Cynghorau'n ei chael yn anodd codi derbyniadau cyfalaf o werthu asedau. Mae gwir angen buddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth o hyd, er enghraifft, Ysgolion yr 21ain ganrif, rheoli gwastraff, lleihau carbon a seilwaith, ac mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ffactor holl bwysig i sicrhau llwyddiant.

Sylw cyffredinol – er gwaethaf y rhesymau hysbys a dealladwy am lefel y setliad, mae'r Cyngor yn ei chael yn anodd cysoni'r setliadau refeniw a chyfalaf gyda'r disgwyliadau a'r galwadau cynyddol ar wasanaethau lleol. Byddant yn wynebu penderfyniadau anodd i gysoni eu cyllidebau'r flwyddyn nesaf ac yn y tymor canolig. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn ac yn cefnogi awdurdodau lleol sy'n wynebu amseroedd anodd ac nad ydynt ar yr un pryd yn hyrwyddo disgwyliadau polisi nad oes modd eu cyflawni. Dywedant ei bod yn amser i bawb weithio gyda'i gilydd i leihau canlyniadau'r cwmp mewn cyllid cyhoeddus ar y rhai mwyaf bregus mewn

cymdeithas a datgan negeseuon clir a chyson wrth y cyhoedd bod y Cynghorau a Llywodraeth Cymru yn bodoli i wasanaethu.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Setliad Dros Dro o -0.8%

Setliad – dywed y Cyngor bod y Setliad yn darparu gostyngiad ariannol o 0.5% ar lefel Cymru gyfan gyda'r gostyngiad yn cael ei gyflwyno yn dilyn wyth mlynedd o ostyngiadau mewn termau real. Teimlent na ddarparwyd dim cydnabyddiaeth ariannol am y pwysau oherwydd chwyddiant y mae holl swyddogaethau cynghorau yn eu hwynebu. Bydd yr athreuliad parhaus i'r cyllid heb ei neilltuo yn arwain at benderfyniadau heriol ar adeg pan mae'n dod yn llawer mwy angenrheidiol cefnogi gwasanaethau hanfodol – ychwanegir ymhellach at hyn gan fod cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn cael setliad is o'i gymharu â rhannau eraill o gyllideb Llywodraeth Cymru.

Addysg a Gofal Cymdeithasol - nodant eiriau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r pwysau y mae addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu, ond nid yw'n glir sut caiff y cyllid cynyddol o £104 miliwn ei gynrychioli yn y gostyngiad o 0.5% mewn cyllid. Hefyd, bu i bwysigrwydd y £6 miliwn ychwanegol ar gyfer atal digartrefedd esgor ar ddryswch diangen ynglŷn â chlustnodi'r adnodd.

Cyllid i'r dyfodol – dywed Torfaen fod darparu setliad 'un flwyddyn' ac asesiad Cymru gyfan dangosol ar gyfer 2019-20 unwaith eto yn siomedig ac na wna ddim i helpu'r gwaith o gynllunio ar gyfer y tymor canolig. Disgwylir i Gynghorau gynllunio ar gyfer nifer o flynyddoedd ac ni hwylusir hyn heb fanylion dyraniadau'r Setliadau unigol ar gyfer y dyfodol. Cydnabyddir y cyllid dangosol lefel uchel ar gyfer 2019-20 ond maent yn dal i fod yn bryderus y gellid gwneud newidiadau posibl pan gyhoeddir y Setliad Terfynol manwl. Mae Torfaen yn gobeithio bod y nod o ddarparu setliadau ar gyfer nifer o flynyddoedd yn golygu y bydd setliad terfynol 2018-19 yn adeiladu ar y cyhoeddiad dros dro. Byddai hyn yn rhoi i Awdurdodau ddyraniadau amcanol ar gyfer nifer o flynyddoedd gan ganiatáu iddynt gynllunio gyda pheth sicrwydd a'u cynorthwyo i sicrhau gwasanaeth cyhoeddus effeithiol a chydgyssylltiedig o fewn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Peirianwaith terfyn isaf – roeddent yn falch bod hwn yn cael ei gadw a'i fod yn gyllid ychwanegol yn hytrach na drwy 'frigidoriad'.

Grantiau penodol - er bod llawer mwy o wybodaeth am grantiau ar gael ar lefel Cymru gyfan, byddai mwy o wybodaeth a rhestr lawn ar lefel awdurdodau yn welliant pellach. Teimlai Torfaen y gallai manylion y grantiau sy'n cael eu cwtogi fod wedi bod ar gael adeg cyhoeddi'r setliad dros dro er mwyn gallu gweld y darlun cyflawn ar yr un pryd. Croesawant nifer y grantiau sy'n cael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw oherwydd y bydd yn helpu awdurdodau i flaenoriaethu gwasanaethau a sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio'n llawn ar allbynnau a manteision i ddefnyddwyr yn hytrach na'u bod yn cael eu rhannol ddefnyddio at ddibenion gweinyddol/rheoli.

Cyfalaf - dywed Torfaen fod eu Cyllid Cyfalaf Cyffredinol yn siomedig wrth i'r adnodd gwario gwirioneddol barhau i erydu yn dilyn pum mlynedd o gyllid digyfnewid, gan roi iddynt ychydig iawn o adnoddau i gynnal eu hasedau y tu allan i'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. Gwaethgir y sefyllfa ymhellach gan ostyngiad Cymru gyfan mewn dyraniadau i adnoddau grantiau cyfalaf penodol, e.e. Cronfa Trafnidiaeth Lleol a grant Dechrau'n Deg.

Treth Gyngor – maent yn falch bod lefelau'r Dreth Gyngor yn dal i fod yn fater i'r Awdurdod ac maent yn dal i fod yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar aelwydydd. Maent yn gwneud eu gorau i gyflwyno cyllideb gytbwys, fodd bynnag, bydd gostyngiadau parhaus mewn cyllid yn rhoi pwysau ar gynydd yn y Dreth Gyngor.

Cyffredinol – bydd Torfaen, fel arfer, yn ceisio bod yn gyfrifol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb a'r angen i fod yn onest gyda rhanddeiliaid y bydd y sefyllfa barhaus o galedi ariannol yn eu gorfodi i wneud dewisiadau anodd iawn.

Cyngor Sir Benfro – Setliad Dros Dro o -0.4%

Cyllid Allanol Cyfun - dywedant, er bod y Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer 2018-19 yn llai na'r disgwyl, mae unrhyw ostyngiad yn arwyddocaol yn enwedig gyda'r pwysau demograffig a deddfwriaethol parhaus ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae awdurdodau lleol gwledig yn wynebu pwysau ychwanegol o safbwynt gwasanaethau cymdeithasol yn y gymuned a'r ddarpariaeth

Ysgolion gwledig. Teimplant nad yw'r Cyllid Allanol Cyfun yn rhoi ystyriaeth i feichiau ariannol ychwanegol y mae Cyngor Sir Benfro yn eu hwynebu yn 2018-19 ac i'r dyfodol. Yn benodol, costau'r gweithlu yw'r rhain (dyfamiadau cyflog, cyfraniadau yswiriant ayb.) prisiau a chwyddiant, yn ogystal â cholli grantiau penodol a phwysau demograffig. Mae setliad dangosol 2019-20 yn awgrymu chweched blwyddyn o ostyngiadau yn y Cyllid Allanol Cyfun iddynt, a bydd hyn yn arwain at ostyngiadau yn ansawdd gwasanaethau a/neu lefel gwasanaethau, ar ei waethaf, mae'n bosibl iddo arwain at ddileu gwasanaethau.

Ni ellir cyfiawnhau'r gwahaniaeth o £580 yn y Cyllid Allanol Cyfun y pen rhwng yr awdurdodau uchaf a'r isaf ac nid yw'n gynaliadwy. Dylid rhoi sylw i hyn oherwydd y gallai'r gwahaniaeth rhwng Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion roi eu cydweithrediad a'u gwaith rhanbarthol yn y fantol. Nid yw fformwla'r Cyllid Allanol Cyfun yn mynd i'r afael â'r cynnydd tymhorol yn y boblogaeth. Mae hyn angen sylw ar frys.

Cyllid i'r dyfodol – mae'r setliad dangosol ar gyfer 2019-20 yn ddefnyddiol ac yn ofynnol ar gyfer eu cynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau cywirdeb.

Grantiau penodol – maent yn falch o weld grantiau'n cael eu trosglwyddo i'r Setliad Dros Dro, fodd bynnag, dylai cynifer â phosibl gael eu trosglwyddo yn y Setliad Terfynol.

Treth Gyngor - dywed Sir Benfro eu bod yn cael eu cosbi am fod â'r Dreth Gyngor Band D isaf (£883.15) yng Nghymru a gan fod yr 'elfen dreth safonol' a ddefnyddir yn y fformiwla yn £1,166.72, mae Llywodraeth Cymru felly yn tybio y codir incwm y Dreth Gyngor ar y lefel hon. Dywedant y cânt eu taro eto gan na allant ond cynyddu'r Dreth Gyngor 5% rhag ofn ymyrraeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ac felly nid ydynt yn cael cymaint o incwm ychwanegol â Chynghorau eraill â lefelau Treth Gyngor uwch. Ychydig o fantais a gânt o'r peirianwaith poblogaeth yn y fformiwla i wneud iawn am y cynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn ystod y gwanwyn a'r haf. Mae angen datblygu peirianwaith sy'n rhoi rhyddid i Awdurdodau lunio cynlluniau tymor canolig a fyddai'n diogelu ac yn gwella Gwasanaethau Lleol gyda chynnydd priodol yn y Dreth Gyngor heb unrhyw gap artiffisial.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – Mae hwn wedi cynyddu ar gyfer 2018-19 er hynny, ni fydd y £7.077m yn darparu ar gyfer eu gwariant blynyddol – ar gyfer 2017-18 rhagamcanir y bydd hwn yn £7.428m.

Cyffredinol – er bod tollau Pont Cleddau wedi'u dileu, dywed Sir Benfro nad oes sôn am hyn yn y datganiad Dros Dro. Rhaid datgan yn glir risgiau a goblygiadau ariannol y cyhoeddiad hwn er mwyn galluogi trafodaethau i ddatblygu rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Cefnogant y datblygiadau gyda'r Gymraeg, er hynny, bydd y gostyngiadau yn y cyllid yn cael effaith niweidiol ar gydraddoldeb y Ddarpariaeth y gallant ei chynnig. Mae gan bob awdurdod yn anffodus wahanol lefelau o alw a Darpariaeth ac mae'n bosibl y bydd angen cydnabod hynny yn y fformiwla. Dywedant eu bod yn edrych ymlaen at Setliad Terfynol gwell.

Cyngor Sir Ynys Môn – Setliad Dros Dro o -0.1 %

Cyllid i'r dyfodol - mae Ynys Môn yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod angen i'r setliad ddarparu bwriadau dangosol ar gyfer y dyfodol i'w gwneud yn haws i wneud cynlluniau ariannol. Bydd gostyngiad pellach o 1.5% yn y setliad yn achosi anawsterau ariannol sylweddol ac ystyried maint hyn dros y 5 mlynedd diwethaf, yn ogystal â'r angen i ariannu cyflogau, chwyddiant prisiau a'r galw cyffredinol am Wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig Gofal Cymdeithasol. Dywed y Cyngor bod gwir werth y gostyngiad hwn yn llawer uwch nag 1.5% a gofynna i Lywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y caiff grant bloc Cymru ei ddyrannu rhwng gwasanaethau. Yn dilyn y Gyllideb, gofynnant i'r holl Awdurdodau gael gwybod am newidiadau sylweddol i'r ffigurau dangosol cyn gynted â phosibl.

Cyllid ychwanegol – mae gwybodaeth a gynhwyswyd yn y Setliad yn awgrymu y darparwyd cyllid ychwanegol i Addysg a Gofal Cymdeithasol ond roedd yn glir mai dim ond y meysydd hyn sy'n dal i gael cyllid ar lefel 2017-18 tra bod y setliad cyffredinol wedi gostwng. Teimlent y rhoddwyd yr argraff anghywir i drethdalwyr drwy eu bod yn defnyddio ymadroddion fel 'cynyddu'r elfen ysgolion' a 'pharhau i fuddsoddi' gan ei gwneud yn anodd felly i Gynghorau esbonio pam bod toriadau'n angenrheidiol a hwythau'n dal i gynyddu'r lefelau Treth Gyngor. Gofynnant am eglurhad pellach yn y setliad terfynol ac am i'r Llywodraeth fod yn fwy tryloyw ac agored yn ei hesboniadau i'r dyfodol.

Grantiau penodol - mae Ynys Môn yn falch bod mwy o grantiau'n cael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ond dywed ei bod yn bwysig cadw golwg ar y trosglwyddiad hyn ac i Lywodraeth Cymru fod yn agored ynglŷn â'u bwriadau. Roedd yn anffodus y cyhoeddwyd lefel o warchodaeth ar gyfer Addysg cyn cyhoeddi gostyngiadau yn y Grant Gwella Addysg. Bydd gostyngiad yn y Grant Refeniw Sengl hefyd yn ei gwneud yn fwyfwy anodd iddynt barhau i wella'r gwasanaeth ailgylchu gwastraff a cheisio cyrraedd y targedau a heriol ar yr un pryd.

Cyfalaf – nid yw'r Gronfa Cyfalaf Cyffredinol a benthycia â chymorth wedi newid ers blynyddoedd lawer ac mae hyn yn debygol o barhau. Er i gyllid cyfalaf sylweddol cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni, e.e. Ysgolion yr 21ain ganrif, teimla'r Cyngor bod y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol ar lefel sydd ond yn caniatáu iddynt fuddsoddi eu cyllid i gynnal ac uwchraddio asedau sy'n bodoli eisoes heb ddim cyllid i gwblhau prosiectau cyfalaf newydd. Mae hyn yn eu rhwystro rhag moderneiddio a gwella'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau – gofynnant i'r polisi gael ei adolygu ar gyfer y dyfodol.

Y Gymraeg – mae'r Cyngor yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog ac ymdrinnir â defnyddwyr gwasanaethau yn yr iaith o'u dewis, felly ni chaiff y setliad dros dro ddim effaith arnynt. Mae cyflenwi gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn costio a hoffent pe byddai'r setliad yn cydnabod y costau hyn gan ganiatáu iddynt gyflawni eu hamcanion parhaus wrth iddynt drawsnewid gwasanaethau a chyflenwi mewn ffordd fwy digidol.

Cyffredinol - dywed Ynys Môn, er bod y gostyngiad yn y setliad yn llai ac yn is na rhai rhagolygon, mae dal yn ostyngiad gwirioneddol ac na ellir llenwi'r bwlch drwy ond cynyddu'r Dreth Gyngor. Bydd cyllidebau gwasanaethau'n dal i gael eu lleihau h.y. £2m yn 2018-19 gydag amcangyfrifon am doriadau pellach o £4m yn 2019-20. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cwtdogi ei gyllideb yn sylweddol ac er mwyn cynnal y lefel, rhaid iddynt geisio gwneud arbedion ym maes Addysg a Gofal Cymdeithasol. Ni allant gael eu diogelu, neu byddai lefelau cyllid ar gyfer gwasanaethau eraill yn lleihau i lefel lle bydd yn anodd cynnal y gwasanaethau statudol lleiaf.

Cyngor Sir Wrecsam – Setliad Dros Dro o -0.3%

Cyllideb – mae nifer y grantiau a drosglwyddwyd rhwng y prif grwpiau gwariant yn ei gwneud yn anodd gwneud cymariaethau o un flwyddyn i'r llall. Mae uno'r Rhaglen Cefnogi Pobl gyda Rhaglenni Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi eraill yn 2019-20 yn peri pryder mawr, gan arwain at ostyngiadau o £13.4 miliwn. Nodai'r cytundeb cyllideb dwy flynedd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru na fyddai'r grant Cefnogi Pobl yn wynebu dim toriadau.

Adroddiad ar y Polisi Trethi – mae'r galw cynyddol am ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn rhoi pwysau aruthrol ar Gynghorau ac nid yw'r trefniadau cyllido presennol yn gynaliadwy. Maent felly yn cefnogi'r egwyddor o archwilio ysgogiadau ariannol posibl gan gynnwys trethu i gefnogi'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Grantiau penodol – mae Wrecsam yn gefnogol i drosglwyddo nifer y grantiau i'r Grant Cynnal Refeniw, fodd bynnag, bydd y gostyngiad yn y Grant Gwella Addysg, elfen wastraff y Grant Refeniw Sengl yn 2018-19 a'r newid graddol arfaethedig i fformiwla ar gyfer y gronfa Byw'n Annibynnol o 2019-20 ymlaen, yn rhoi pwysau ariannol mawr arnynt.

Grant Cyfalaf Cyffredinol - mae hwn yn isel o hyd ac maent yn siomedig na ryddhawyd gwybodaeth am grantiau penodol ac ystyried y prosiectau seilwaith sydd ar y gweill.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – mae parhad y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn gadarnhaol ond mae'r adnoddau'n parhau ar yr un lefel â phan y'i cyflwynwyd yn 2013-14 ac mae'n bwysau ychwanegol iddynt.

Cynllunio Ymlaen – er bod ffigurau dangosol wedi'u darparu ar gyfer Setliad 2019-20, rhaid rhoi ystyriaeth i ddarparu ffigurau Setliad yn gynharach i'r dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig i Gynghorau y dewis i gymryd setliad cyllid aml-flwyddyn a fyddai'n rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd ariannol, er mwyn iddynt allu cynllunio gwasanaethau'n rhagweithiol.

Cyfathrebu – roedd Wrecsam yn siomedig bod y cyfryngau wedi cael manylion y Setliad Dros Dro cyn iddynt gael eu e-bostio at y Cyngor. Maent felly yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto pan gyhoeddir y setliad terfynol a setliadau i'r dyfodol.

Cyffredinol - cyfeiria'r Cyngor at ddatganiad y Gweinidog ar y cynnydd yn rhannau'r Setliad ar gyfer Addysg a Gofal Cymdeithasol yn 2018-19. Gan fod y newid cyffredinol yn y Cyllid Allanol Cyfun yn £19m dywedant ei bod yn amlwg bod llawer iawn o wybodaeth ariannol ar goll pan gyhoeddwyd y setliad a'r gyllideb - byddai wedi bod yn ddefnyddiol i awdurdodau wybod hyn. Eglurai'r ohebiaeth rhwng Ysgrifennydd Addysg y Cabinet ac Arweinydd CLILC fod lefel y toriadau yn fwy nag a nodwyd yn y cyhoeddusrwydd am y cyhoeddiadau adeg y setliad. Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod yn glir er mwyn i Gynghorau allu ei chynnwys yn y Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb.

Cyngor Sir Ceredigion – Setliad Dros Dro o -0.3 %

Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol cynyddol o ganlyniad i'r toriadau parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus ac maent wedi dioddef gostyngiadau mawr dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae hyn, ynghyd â phwysau oherwydd chwyddiant, wedi arwain at ostyngiad o 25%, gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld toriadau o hyd at £18m. Mae'r gofynion deddfwriaethol newydd, megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Iaith Gymraeg wedi rhoi pwysau ychwanegol arnynt.

Teneurwydd poblogaeth - maent yn falch bod ystyriaethau teneurwydd poblogaeth wedi cael eu cydnabod yn y fformiwla dosbarthu, ond maent yn cael gostyngiad pellach o 0.3% yng nghyfanswm eu cyllid yn setliad eleni. Mae hyn yn annigonol i sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cael eu gwarchod gan eu bod yn wynebu pwysau costau cynyddol o dros 5%, a gan iddynt gael eu hysbysu o'r angen i gynllunio ar gyfer gostyngiad pellach o 1.5% yn 2019-20.

Grantiau - mae Ceredigion yn siomedig bod y grantiau gofal cymdeithasol sy'n cael eu trosglwyddo, yr arferent fod yn ychwanegol at y Grant Cynnal Refeniw yn 2017-18, yn awr wedi'u cynnwys yn setliad 2018-19. Teimlant ei fod yn ostyngiad pellach yn yr arian sydd ar gael sy'n darparu gofal hanfodol i bobl hyn mewn cymunedau gwledig. Dywedant y'i cyhoeddwyd fel arian newydd o ganlyniad i bwysau y cydnabyddir sydd ar y gyllideb gofal cymdeithasol, a gofynnant pam bod yr arian ychwanegol hwn wedi cael ei dynnu'n ôl, yn enwedig gan fod y pwysau'n parhau, gyda'r maes gwasanaeth dan straen ariannol aruthrol.

Cyffredinol – yn dilyn datganiadau gan yr Ysgrifenyddion Cabinet dros Addysg a Gofal Cymdeithasol fod arian ychwanegol wedi'i ddyrannu o fewn y Grant Cynnal Refeniw ni allant weld bod yr arian ar gael yn y Setliad hwn. Dywedant nad yw wedi'i neilltuo ac y byddai unrhyw godiad yn y cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn yn golygu y byddai gwasanaethau statudol eraill yn wynebu toriadau o oddeutu £2.5m.

Mae'r newidiadau a'r gostyngiadau sylweddol a wnaed i'r Grant Cynnal Refeniw wedi gadael bwch. Bydd gofyn cael amser i ystyried a gweithredu hyn ac mae mwy o amser yn ofynnol i gynllunio ar ei gyfer nag a ganiateir gan y cyfnod ar gyfer pennu'r gyllideb.

Cronfa Cyfalaf Cyffredinol – nodant y caiff y gronfa hon ei chynnal ond ei fod yn doriad mewn termau real yn dilyn cyfnod hir, di-ball o ddyraniadau gwastad yn dilyn tair blynedd o doriadau. Mae'r Cyngor yn defnyddio benthycia darbodus a derbyniadau cyfalaf i'r eithaf o fewn ei fframwaith polisi a'i lefelau fforddiadwyedd.

Cyngor Sir Caerdydd – Setliad Dros Dro o 0.2 %

Cyllid y setliad – cafodd y Cyngor adborth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Setliad, a'r hyn a ddeallant i ddechrau oedd y byddent ar gyfer 2018-19 yn cael £954,000 yn ychwanegol mewn termau ariannol er bod hwn wedi'i erydu i £118,000 oherwydd cyfrifoldebau digartrefedd. Fe'u gadawyd i ysgwyddo pwysau ychwanegol o dros £22m yn 2018-19 ar ôl gwneud arbedion o £105m dros y tair blynedd diwethaf ynghyd â chap o £76m ar y gyllideb dros y tymor canolig. Mae'r cynnydd parhaus ym mhoblogaeth Caerdydd, er bod hynny wedi'i adlewyrchu yn y setliad, yn arwain at bwysau costau cynyddol oherwydd y galw am wasanaethau.

Pwysau – y pwysau presennol, yn enwedig Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd i gyfrif am bron 65% o gyllideb net Caerdydd, sy'n cynyddu'n flynyddol oherwydd pwysau o ran prisiau a'r galw, felly byddai £104 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y meysydd hyn wedi cael ei groesawu.

Roedd Caerdydd felly yn siomedig pan gawsant eglurhad nad yw hwn yn arian ychwanegol o'i gymharu â'r lefelau ariannu cyffredinol presennol.

Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol – dywed y Cyngor fod gwasanaethau eraill sy'n cynnwys meysydd dyletswydd statudol sylweddol yn cael eu gwasgu er mwyn ymdopi â phwysau nas ariennir yn yr Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Os bydd cyllideb y DU a Setliad Llywodraeth Cymru yn dwyn cyfrifoldebau nas ariennir ychwanegol yna bydd y tymor canolig (sydd eisoes yn peri pryder difrifol) yn peri pryder enbyd. Teimlant fod realiti yn gwrthdweud amgyffred y cyhoedd bod y gwasanaethau hyn yn cael cynnydd o aml i filiwn o bunnau.

Mae gostyngiadau mawr yn y grant Gwella Addysg a'r grant Refeniw Sengl, ynghyd â diffyg eglurder am y broses ymgeisio am yr olaf, wedi codi cryn bryderon oherwydd effaith bosibl y gwasanaethau hyn. Ychwanegwyd ymhellach at hyn gan yr elfen lai o'r Grant Gwella Addysg a 'drosglwyddwyd' i'r Grant Cynnal Refeniw. Credant ei bod yn aneglur pam na ddilynodd yr arfer trosglwyddo safonol gyda'r addasiad llinell sylfaen cysylltiedig a gofynna pam bod cyfarwyddiadau penodol ar ei ddefnyddio pan nad yw'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo.

Cronfa Cyfalaf Cyffredinol – er 2010-11 mae hon wedi cael ei chwtoegi mwy na thraean mewn termau ariannol tra bo costau adeiladu a chwyddiant dros yr amser hwn wedi cael effaith niweidiol pellach ar gapasiti'r rhaglen gyfalaf. Cyfyngir i raddau helaeth ar fforddiadwyedd benthyca refeniw i ategu'r rhaglen ond eto mae graddau o fenthyca ychwanegol yn anochel er mwyn cynnal asedau gweithredol, ac mae hyn yn ei dro yn rhoi straen pellach ar gyllidebau refeniw.

Cyllid Allanol Cyfun – mae'r Cyngor wedi'i galonogi bod y Setliad Dros Dro yn cynnwys Cyllid Allanol Cyfun cyfartalog dangosol ar gyfer 2019-20 er bod y sefyllfa a amlygir hyd yn oed yn fwy heriol nag yn 2018-19. Nodant y bwriad i adolygu'r dyraniadau presennol ochr yn ochr â'r toriadau heb eu dyrannu o £3.5 biliwn yng Nghyllideb y DU a byddent yn annog Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth i'r sefyllfa lem sy'n wynebu awdurdodau yng Nghymru dros y tymor canolig.

Cyffredinol – croesawant y symudiad at fwy o eglurder dros y tymor canolig, er hynny, mae'n ymddangos bod cynnydd mewn blynyddoedd diweddarach yn digwydd ar draul 2018-19. Roeddent yn siomedig, ar ôl ceisio eglurhad, nad yw union natur y 'cyllid ychwanegol' yn darparu dim arian ychwanegol ochr yn ochr â disgwyliad i ddefnyddio'r adnoddau presennol i wneud iawn am y Grant Gwella Addysg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Setliad Dros Dro o -1.0%

Setliad – roedd y Cyngor yn falch bod y canlyniad cyffredinol o'r setliad yn llawer gwell na'r disgwyl a'u bod wedi cynllunio ar ei gyfer yn eu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ar lefel Cymru gyfan, teimlent fod nifer o agweddau positif, sef ad-drefnu adnoddau ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, sefydlogrwydd o fewn y dyraniadau ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, hyblygrwydd pellach yn y cyllid o fewn grantiau penodol a pheirianwaith terfyn isaf.

Nodir adolygiad canol blwyddyn o effaith cynnydd yn y terfyn cyfalaf a ddefnyddir i godi am ofal preswyl, gyda'r posibilrwydd o gynnydd pellach mewn pryd ar gyfer cyhoeddiad y setliad terfynol.

Mae Blaenau Gwent yn croesawu'r peirianwaith terfyn isaf a gynhwysir gan eu bod ymhlith hanner dwsin o awdurdodau a fydd yn elwa ohono.

Bydd y gostyngiad dangosol ar gyfer 2019-20 yn hysbysu'r broses o gynllunio'r gyllideb ar gyfer y tymor canolig.

Dywed y Cyngor bod cynnwys gwybodaeth am grantiau penodol yn fuan yn gyfle datblygu allweddol sydd angen ei ystyried ymhellach, yn bennaf oherwydd y bydd o gymorth iddynt gynllunio eu cyllideb ac mae iddo oblygiadau o safbwynt y gweithlu.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Setliad – dywed CLILC y ceir y mater sylfaenol o weithio'n galetach i greu dealltwriaeth lawnach o sut caiff y setliad ei lunio cyn ei gyhoeddi. Dywedant fod yr Is-grŵp Ariannol yn fforwm defnyddiol ond na chaiff canlyniad y setliad dros dro a gyhoeddir ei ddadansoddi na'i drafod ymlaen llaw a

theimplant na ddylai dim byd annisgwyl godi pan gaiff ei gyhoeddi. Fe wnaeth y cyhoeddiad ynglŷn â 'dyraniad ychwanegol' ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol, a sut y cyflawnwyd hynny, achosi dryswch ac anghytundeb. Maent yn parchu uniondeb proses gyllideb Llywodraeth Cymru ond teimlent na ddylai'r lefel hon o gamddealltwriaeth ddigwydd.

Hon yw'r wythfed flwyddyn y mae llywodraeth leol wedi wynebu gostyngiadau mewn termau real yn eu cyllid craidd, ac mae gwasanaethau y mae cymunedau lleol yn dibynnu arnynt yn cael eu gadael i ysgwyddo'r pwysau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â chostau gweithlu a phan ychwanegir gostyngiadau mewn cyllid i'r pwysau, rhaid gwneud toriadau a rhaid canfod arbedion o oddeutu 4.5% o'u cyllidebau net. Gwasanaethau plant yw'r maes sy'n peri'r her ariannol fwyaf bellach, wedyn gofal cymdeithasol i oedolion ynghyd â'r cynnydd mewn pobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae Cynghorau hefyd yn wynebu beichiau ychwanegol megis pwysau ar gyflogau.

Mae gan lywodraeth leol yng Nghymru nifer fawr o staff ar gyflogau is a thra bo Cynghorau yn Lloegr yn mynd ar drywydd preifateiddio ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol, mae'r Cynghorau yng Nghymru wedi cadw cyfran fwy o weithwyr rheng flaen. Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol ynghyd â thâl am ddyletswyddau 'cysgu mewn' ar gyfer darparwyr Gofal Cymdeithasol wedi rhoi baich newydd ar Gynghorau (cyhoeddodd y canllawiau newydd fod gan weithwyr hawl i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol am yr holl amser maent yn gweithio er eu bod yn cysgu). Mae rhai darparwyr eisoes wedi cynyddu eu costau i'r Cynghorau tra bod eraill yn dal i ystyried gweinyddiaeth a methdaliad.

Er bod y rhagolygon oddi wrth gyrff a berchir, e.e. y Sefydliad Iechyd, CIPFA yn nodi bod cynaliadwyedd gwasanaethau lleol yn y fantol, mae'r Cynghorau yn parhau i fynd ar drywydd llwybr i arbed arian a thrawsnewid eu gwasanaethau er gwaethaf yr her a wynebir oherwydd y cyni ariannol.

Cyfalaf - mae CLILC yn nodi bod gan wasanaethau ataliol a buddsoddiad cyfalaf, e.e. gwasanaethau cymdeithasol, rôl bwysig i'w chwarae o safbwynt lles a thwf economaidd hirdymor Cymru a bod seilwaith lleol yn holl bwysig i'r twf hwn. Mae adnoddau cyfalaf ychwanegol sylweddol (£300m) ar gael i Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd nesaf, a gellid ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion yr 21ain ganrif a'r Rhaglen Llifogydd ac Arfordirol. Teimlent y byddai hyn yn ysgafnu elfennau cyllid cyfatebol uchel awdurdodau lleol oherwydd y gallai'r lefelau presennol fod yn anfforddiadwy i lawer o awdurdodau lleol i'r dyfodol.

Cyllid i'r dyfodol - mae ffigurau dangosol 2019-20 yn eu calonogi gan eu bod wastad wedi cefnogi setliadau aml-flwyddyn ers cyflwyno hynny ar ddiwedd y 2000au a chredant y gellid ei ymestyn i gyllid grantiau penodol. Mae setliadau aml-flwyddyn a gwella trefniadau cynllunio ariannol yn dod yn gynyddol bwysig gan ei fod yn darparu fframwaith ariannu priodol i Gynghorau.

Grantiau – byddant wastad yn cefnogi mwy o hyblygrwydd ariannol drwy uno ac ymgorffori grantiau yn y Setliad. Teimlant fod y cynllun Hyblygrwydd Cyllid yn mynd i'r cyfeiriad iawn ond ychydig o ymgysylltiad gwleidyddol hanfodol a welwyd, os o gwbl.

Cyffredinol – edrychant ymlaen at gydweithio yn y dyfodol agos ar hyblygrwydd ariannol cynyddol er mwyn i Gynghorau ymateb i anghenion lleol nid dim ond o safbwynt grantiau penodol, ond hefyd o safbwynt codi am ofal cymdeithasol.